| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad: | Adroddiad Blynyddol: Cytundebau Adran 106 2023/24 |
| Diben yr Adroddiad: | Rhoi gwybod i Aelodau Etholedig a'r Cyhoedd am y cynnydd ar faterion Adran 106 (Rhwymedigaeth Gynllunio) sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (Ebrill 2023 - Mawrth 2024). |
| Swyddog Cyfrifol: | Liam Jones, Rheolwr Gweithredol Cynllunio a Rheoli Adeiladu<br>Rhif ffôn: 01446 704724<br>Lucy Butler, Uwch Gynllunydd<br>Rhif ffôn: 01446 704665<br>E-bost: planning@valeofglamorgan.gov.uk |


Crynodeb Gweithredol:

- Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned a'r cyhoedd, ar faterion Adran 106 ym Mro Morgannwg.
- Yn y 12 mis rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, llofnodwyd cyfanswm o 16 o gytundebau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio. Cyfanswm gwerth y cyfraniadau ariannol yn y cytundebau hyn yw £518,368.80.
- Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Cyngor £20,705,749.03 ym mhrif gyfrif Adran 106. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfraniadau hyn wedi ymrwymo i gynlluniau ym Mro Morgannwg, fel y cytunwyd gydag Aelodau Etholedig a Meysydd Gwasanaeth, neu maent yn aros am ymgynghoriad pellach. Yn ogystal, daliwyd £469,009.95 ar gyfer costau cynnal a chadw parhaus.
- Derbyniodd y Cyngor gyfraniadau ariannol sy'n cyfateb i £3,262,141.73 rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.
- Cafodd £1,497,085.56 ei wario ar gynlluniau yn ystod 2023/24, gyda chyfraniadau Adran 106 yn cefnogi gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, mannau agored cyhoeddus a celf gyhoeddus.

## 1. Cefndir

**1.1** Mae gan y Cyngor y grym i lunio cytundebau cyfreithiol gyda datblygwyr dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i fynnu bod datblygwyr yn gwneud gwaith, yn darparu gwasanaethau neu yn gwneud cyfraniadau ariannol i liniaru'r effaith sy'n deillio o'r datblygiad newydd.

**1.2** Nodir polisïau'r Cyngor ar dai fforddiadwy a rhwymedigaethau cynllunio yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig Bro Morgannwg (2011-2026) ac yn y dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCAau) Tai Fforddiadwy a Rhwymedigaethau Cynllunio mabwysiedig.

**1.3** Mae Polisi CDLl MD4 yn nodi'r polisi trosfwaol ar gyfer gofyn am seilwaith cymunedol a rhwymedigaethau cynllunio, lle bo hynny'n briodol a chan ystyried hyfywedd datblygu. Mae'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio yn egluro ymhellach ble, beth, pryd a sut y ceir rhwymedigaethau cynllunio, er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i greu cymunedau cynaliadwy sy'n rhoi budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

**1.4** Er mwyn sicrhau bod CDLlau yn cael eu diweddaru'n gyson, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu eu Cynllun o leiaf bob 4 blynedd o'r dyddiad mabwysiadu. Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd i ddisodli'r CDLl mabwysiedig presennol. Enw'r Cynllun newydd fydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) a bydd yn cwmpasu'r cyfnod 2021 – 2036.

**1.5** Cymeradwywyd Adroddiad Adolygu gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2022 a oedd yn ystyried effeithiolrwydd y CDLl mabwysiedig ac a gadarnhaodd y weithdrefn adolygu i'w dilyn wrth baratoi'r CDLl Newydd. Cadarnhaodd yr adroddiad fod polisïau'r CDLl mewn perthynas â thai fforddiadwy a seilwaith yn gweithio'n effeithiol ac yn sicrhau lliniaru priodol. Daeth yr Adroddiad Adolygu i'r casgliad y bydd adolygiad y CDLl yn rhoi cyfle i'r Cyngor gynnal adolygiad o hyfywedd datblygu i sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio'r dull polisi mwyaf priodol i sicrhau'r ddarpariaeth tai fforddiadwy fwyaf posibl, yn ogystal â seilwaith a chyfleusterau cymunedol, ac i ystyried unrhyw bolisïau newydd posibl mewn perthynas â seilwaith gwyrdd a newid yn yr hinsawdd.

**1.6** Cymeradwywyd Cytundeb Cyflawni'r CDLlN gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2023 sy'n cynnwys yr amserlen ar gyfer cyflawni'r Cynllun newydd. Ar hyn o bryd mae proses y CDLlN ar y cam paratoi cyn adneuo a chyfranogi. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir ynghyd â'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd rhwng 6/12/23 a 14/2/24. Rhagwelir y bydd ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo yn cael ei gynnal yng Ngwanwyn 2025.

**1.7** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi cynnydd y Cyngor o ran trafod, monitro a gweithredu rhwymedigaethau cynllunio drwy gytundebau Adran 106, ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

## 2. Materion Allweddol i'w Hystyried

***Ceisiadau cynllunio yn amodol ar Gytundebau Adran 106 yn 2023/24***

**2.1** Yn y 12 mis rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, llofnodwyd cyfanswm o 16 o gytundebau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio. Cyfanswm gwerth y cyfraniadau ariannol yn y cytundebau hyn yw £518,368. Dylid nodi bod nifer o’r cytundebau a lofnodwyd yn 2023/24 wedi bod yn Weithredoedd Amrywio i gytundebau presennol Adran 106.

***Gweithredu Rhwymedigaethau Cynllunio yn 2023/24 – Rhwymedigaethau Ariannol***

**2.2** Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Cyngor £20,705,749.03 ym mhrif gyfrif Adran 106. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfraniadau hyn wedi ymrwymo i gynlluniau ym Mro Morgannwg, fel y cytunwyd gydag Aelodau Etholedig a Meysydd Gwasanaeth, neu maent yn aros am ymgynghoriad pellach. Yn ogystal, daliwyd £469,009.95 ar gyfer costau cynnal a chadw parhaus. Y cyfanswm yn y cyfrif Adran 106 cyffredinol oedd £21,174,758.98.

**2.3** Derbyniodd y Cyngor gyfraniadau ariannol o £3,262,141.73 rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Derbyniwyd rhandaliadau mawr o rai datblygiadau gan gynnwys tir yng ngogledd-orllewin y Bont-faen, tir oddi ar Heol y Bont-faen, Sain Tathan a thir i’r de o Cog Road, Sili.
Mae crynodeb o incwm a gwariant ar bob rhwymedigaeth gynllunio rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 ynghlwm yn Atodiad B.

**2.4** Cafodd £1,497,085.56 ei wario ar gynlluniau yn ystod 2023/24, gyda chyfraniadau Adran 106 yn llawn (neu'n rhannol) yn cefnogi gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, celf gyhoeddus a gwelliannau i fannau agored. Dylid nodi, ar gyfer rhai cynlluniau, bod grantiau amgen fel y Gronfa Ffyniant a Rennir a Grant Tai Cymdeithasol wedi cael eu defnyddio i gefnogi cynlluniau ac i wella'r defnydd o gyllid Adran 106.

**2.5** Darperir rhestr gryno isod a gellir gweld detholiad o ffotograffau o gynlluniau yn Atodiad C:

**Man Agored Cyhoeddus:**
Mae'r Cyngor wedi defnyddio cyfraniadau adran 106 i ddarparu / gwella mannau agored cyhoeddus fel a ganlyn:

- Meinciau a biniau newydd ar Gomin Dinas Powys.
- Estyniad i lwybr troed yn ardal chwarae Parc Seel, Dinas Powys
- Plannu coed ychwanegol yn y Parc Canolog, Y Barri
- Plannu coed ychwanegol ym Mharc Pencoedtre, Y Barri
- Meinciau newydd ym Mharc Chickenwood, Y Barri

- Paneli dehongli ac arwyddion mynediad yng Ngerddi Gladstone Isaf ac Uchaf, Y Barri

Mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud yn 2023/24 ar brosiect Cyrtiau Murchfield yn Ninas Powys. Mae hwn yn brosiect man agored cyhoeddus a chelf gyhoeddus ar y cyd. Cynhaliwyd arolygon cychwynnol yn 2021/22. Penodwyd ymgynghorwyr Tirwedd / Celf Gyhoeddus yng Ngwanwyn 2023 a chynhaliwyd ymgynghoriad cymunedol pellach yn Haf 2023. Cynhaliwyd gwaith rheoli llystyfiant a chlirio ym mis Chwefror 2024 a hysbysebwyd y cyfle i dendro ar GwerthwchiGymru ym mis Gorffennaf 2024. Rhagwelir y bydd y cynllun yn dechrau ar y safle ddechrau Hydref 2024.

**Trafnidiaeth Gynaliadwy:**
Mae'r Cyngor wedi defnyddio cyfraniadau adran 106 i ddarparu / gwella darpariaeth trafnidiaeth gynaliadwy fel a ganlyn:

- Cynllun tocyn £1 ar wasanaeth bws 303 yn ystod gwyliau'r haf 2023
- Gwelliannau i gerddwyr yng nghefn Parc Jenner, Y Barri
- Gwelliannau i gerddwyr yng Ngerddi Gladstone Isaf a'r cyffiniau, Y Barri
- Gwelliannau i gerddwyr ar Gladstone Road ger y Memo, Y Barri.
- Meinciau newydd mewn lleoliadau amrywiol yn Sain Nicolas a'r cyffiniau
- Gorsafoedd pwmpio/atgyweirio beiciau newydd yn Sain Nicolas a Llan-faes
- Goleuadau stryd ychwanegol ar Heol Llan-faes, Llanilltud Fawr
- Atgyweiriadau i'r Llwybr Estyll, Y Bont-faen
- Safle bws pren newydd ger Parc Gwledig Cosmeston
- Cyllid ar gyfer Greenlinks a Thrafnidiaeth Gymunedol

Mae gwaith dichonoldeb a dylunio hefyd wedi'i wneud yn 2023/24 mewn perthynas â chroesfannau rheoledig newydd yn Nglannau'r Barri a Westgate, Y Bont-faen. Mae'r olaf ar hyn o bryd wedi ei atal yn amodol ar y Cynllun Creu Lleoedd sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer y Bont-faen.

**Cyfleusterau Addysgol:**
Mae Adran 106 wedi cyfrannu at nifer o brosiectau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif (a ailenwyd Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Band B) yn 2023/24. Ceir diweddariad isod:

- Glannau'r Barri (ysgol gynradd yn cael ei darparu gan gonsortiwm datblygu) – Datblygiad ysgol newydd ar gyfer darpariaeth Gymraeg ar gyfer 420 o lefydd i ddisgyblion a 96 o leoedd meithrin rhan-amser. Prosiect bellach wedi'i gwblhau.
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas – Prosiect ailddatblygu ar gyfer 126 o ddisgyblion a 24 o lefydd meithrin rhan-amser. Prosiect bellach wedi'i gwblhau.
- Ymestyn Ysgol Y Deri - Prosiect datblygu ysgol newydd â 150 o leoedd. Dechreuodd y prosiect ar y safle ym mis Ebrill 2024.

- Ysgol Gyfun Gatholig Sant Richard Gwyn – prosiect ailddatblygu. Adeilad ysgol newydd i ddarparu lle i 1050 o ddisgyblion ynghyd â 60 o leoedd mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Ebrill 2024.
- Ysgol Iolo Morganwg – datblygiad ysgol newydd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng ngogledd-orllewin y Bont-faen ar gyfer 420 o leoedd i ddisgyblion a 96 o leoedd meithrin rhan-amser. Trosglwyddo tir wedi'i gwblhau.

Y tu allan i'r rhaglen dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, adeiladwyd uned dosbarth modiwlaidd newydd yn Ysgol Iau Dinas Powys yn ystod 2023/24. Mae’r prosiect bellach wedi’i gwblhau.

**Cyfleusterau Cymunedol**
Mae'r Cyngor wedi defnyddio cyfraniadau adran 106 i ddarparu / gwella cyfleusterau agored fel a ganlyn:

- Offer ffitrwydd awyr agored newydd a ffensys cwrt tennis newydd yn Station Road East, Gwenfô
- Adnewyddu ffensys cyrtiau tennis ac adnewyddu pyst yn Station Road East, Gwenfô
- Offer ffitrwydd awyr agored newydd yn Lougher Place, Sain Tathan
- Plannu coed, bylbiau a blodau gwyllt ym Mharc Celtic Way, Y Rhws
- Gosod offer chwarae newydd yn ardal chwarae Drylla, Dinas Powys

Cafodd y cyfle tendro ar gyfer yr ardal chwarae newydd ym Mharc Celtic Way, Y Rhws, ei hysbysebu ar GwerthwchiGymru ym mis Mehefin 2024. Rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau ar y safle ar ddechrau’r Hydref 2024.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yng nghanolfan hamdden Llanilltud Fawr i uwchraddio'r toiledau a'r ystafelloedd newid presennol.

**Celf Gyhoeddus**
Mae'r Cyngor wedi defnyddio cyfraniadau adran 106 i ddarparu celf gyhoeddus newydd fel a ganlyn:

- Murluniau newydd ar thema blodau a chwaraeon wedi'u cwblhau yng Ngerddi Gladstone Isaf ac Uchaf, Y Barri
- Gosodwyd ffenestri gwydr lliw newydd wedi'u cynllunio gan artistiaid yn ffasâd hen Eglwys Sant Paul, Penarth
- ‘Gardd gymunedol celf gyhoeddus fyw Bee Hapus wedi ei chwblhau yn natblygiad Heritage Gate, Llanilltud Fawr.
- Gwaith celf gyhoeddus newydd wedi'i osod yng Ngerddi Clare, Y Bont-faen

Gwnaed gwaith cychwynnol hefyd yn 2023/24 ar gyfer prosiect Cyrtiau Murchfield yn Ninas Powys. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys gosodiadau celf gyhoeddus newydd yn ogystal ag elfennau tirlunio caled a meddal newydd - gweler yr adran Mannau Agored Cyhoeddus uchod.

***Gweithredu Rhwymedigaethau Cynllunio yn 2023/24 – Rhwymedigaethau 'Mewn Nwyddau'***

**2.6** Yn ogystal â chyfraniadau ariannol, mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda datblygwyr i gyflawni rhwymedigaethau 'mewn nwyddau' ar safleoedd datblygu. Er enghraifft, cafodd 221 o unedau tai fforddiadwy eu cwblhau/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a chafodd y mwyafrif eu sicrhau drwy gytundebau Adran 106.

***Cyllid Grant Adran 106 - Diweddariad***

**2.7** Mae nifer o grantiau Adran 106 wedi'u rhoi i Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddol, a Chynghorau Tref a Chymuned, sy'n darparu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol amhrisiadwy.

**2.8** Yn 2023/24, mae cyfraniadau Adran 106 i gefnogi nifer o geisiadau wedi'u datblygu, gan gynnwys:

- Cymdeithas Tai Newydd - ffenestri gwydr lliw newydd yn hen Eglwys Sant Paul, Penarth –– a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2023.
- Sain Nicolas gyda Chyngor Cymuned Tresimwn - mainc bicnic hygyrch newydd ar gyfer maes pentref Sain Nicolas
- Cyngor Cymuned Dinas Powys – meinciau a bin newydd ar gyfer Comin Dinas Powys

## 3. Sut mae'r cynigion yn dangos tystiolaeth o'r Pum Ffordd o Weithio ac yn cyfrannu at ein Hamcanion Lles?

**3.1** Hirdymor - Mae cyfraniadau Adran 106 yn ceisio sicrhau bod cymunedau cynaliadwy yn cael eu datblygu ym Mro Morgannwg, gan ddarparu cyfleoedd cyfartal i bawb o ran byw, dysgu, gweithio a chymdeithasu.

**3.2** Atal - Bydd defnyddio cyfraniadau i gynyddu nifer y cartrefi cynaliadwy, fforddiadwy a ddarperir ym Mro Morgannwg yn atal digartrefedd ac yn darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel.

**3.3** Integreiddio - Mae cyflawni rhwymedigaethau cynllunio yn ceisio sicrhau bod cymunedau newydd wedi'u hintegreiddio.

**3.4** Cydweithio - Mae'r Cyngor yn cydweithio ag Aelodau Etholedig, adrannau mewnol a sefydliadau allanol fel Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gyflawni cynlluniau gan ddefnyddio cyfraniadau Adran 106. Mae gwaith parhaus ar Gynlluniau Creu Lleoedd hefyd yn helpu i lywio'r angen am fuddsoddiad pellach mewn cymunedau.

**3.5** Ymglymiad - Mae adrannau mewnol a sefydliadau allanol lluosog yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni cynlluniau gan ddefnyddio cyfraniadau Adran 106 mewn ffordd gyfannol.

## 4. Goblygiadau Newid Hinsawdd a Natur

**4.1** Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig a'r CCAau ategol yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio lleol ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy.

**4.2** Defnyddir rhwymedigaethau cynllunio i liniaru a sicrhau gwelliannau o ganlyniad i ddatblygiadau newydd. Gall cytundebau Adran 106 sicrhau buddsoddiad mewn mesurau trafnidiaeth amgylcheddol a chynaliadwy.

**4.3** Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfraniadau Adran 106 lle bo hynny'n briodol i wella bioamrywiaeth mewn mannau agored cyhoeddus trwy blannu blodau gwyllt, bylbiau a choed newydd e.e. gardd gymunedol celf gyhoeddus 'Bee Hapus' yn Llanilltud Fawr.

**4.4** Mae cyfraniadau Adran 106 hefyd wedi cefnogi'n ariannol y gwaith o ddarparu ysgol gynradd garbon sero-net gyntaf Cymru (ar waith) – Ysgol Gynradd Trwyn y De.

**4.5** Bydd y CDLl Newydd yn galluogi'r Cyngor i ystyried unrhyw bolisïau newydd posibl mewn perthynas â rhwymedigaethau cynllunio, megis seilwaith gwyrdd a newid yn yr hinsawdd.

## 5. Adnoddau ac Ystyriaethau Cyfreithiol

**<u>Ariannol</u>**

**5.1** Sicrheir cyfraniadau ariannol drwy gytundebau Adran 106. Mae cytundeb Adran 106 yn gytundeb cyfreithiol rwymol rhwng perchennog tir, datblygwr a'r Cyngor. Mae cyfraniadau ariannol yn cael effaith gadarnhaol ar lawer o swyddogaethau'r Cyngor, gan gynnwys addysg, cyfleusterau cymunedol, mannau agored, priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus. Gellir defnyddio cyfraniadau ariannol hefyd fel arian cyfatebol i sbarduno arian ychwanegol, fel Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Cyngor.

**<u>Cyflogaeth</u>**

**5.2** Nid oes unrhyw faterion staffio.

**<u>Cyfreithiol (gan gynnwys Cydraddoldeb)</u>**

**5.3** Mae Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd gan Adran 12 Deddf Cynllunio ac Iawndal (1991) a Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd), yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer

rhwymedigaethau cynllunio. Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth hon wrth sicrhau'r cyfraniadau hyn.

**5.4** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu ein bod yn gweithio tuag at sicrhau Cymru fwy cyfartal o gymunedau cydlynus. Bydd cyflawni rhwymedigaethau tai fforddiadwy a chynllunio yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i'r ddyletswydd hon. Mae prosiectau celf gyhoeddus hefyd yn cyfrannu at wella lles diwylliannol Cymru.

## 6. Papurau Cefndir

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010

Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Bro Morgannwg (2011-2026)

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bro Morgannwg - Adroddiad Adolygu (Mai 2022)

Canllaw Cynllunio Atodol 'Tai Fforddiadwy'

Canllaw Cynllunio Atodol ‘Rhwymedigaethau Cynllunio’